Improving renting for

a safe home for everyone in Wales

THE WAY YOU RENT IS CHANGING

The way you rent is changing for tenants and landlords.

The Renting Homes Act is the biggest change to housing law in Wales for decades, and will affect all our tenants, and we are here to support you every step of the way.

From 15 July 2022 the Welsh Government plan for the Renting Homes (Wales) Act 2016 to change the way all landlords in Wales rent their properties. It will improve how we rent, manage, and live in rented homes – which is good news for all tenants across Wales.

Have a look at the Welsh Government's video, where they explain exactly what will be happening.

What does the new law mean for me?

Under the new law, tenants and licensees will become 'contract-holders'. Tenancy agreements will be replaced with 'occupation contracts'.

The new law will make renting easier and provide greater security for all tenants. This will mean:

- Receiving a written contract setting out your rights and responsibilities
- An increase in the 'no fault' notice period from two to six months
- Greater protection for you from eviction
- Improved succession rights to pass on your home
- More flexible arrangements for joint contract-holders, making it easier to add or remove others to an occupation contract

Find out more: To find out more about the new legislation and the impact it will have on both tenants and landlords, please visit the Welsh Government's website below.

https://gov.wales/housing-law-changing-renting-homes

We will be contacting all tenants over the coming months to explain more about these changes.

Gwella rhentu i roi
cartref diogel i bawb yng Nghymru

MAE'R FFORDD YR YDYCH CHI'N RHENTU YN NEWID

Mae'r ffordd rydych chi'n rhentu yn newid i denantiaid a landlordiaid.

Y Ddeddf Rhentu Cartrefi yw'r newid mwyaf i gyfraith tai yng Nghymru ers degawdau, a bydd yn effeithio ar ein holl denantiaid, ac rydym yma i'ch cefnogi bob cam o'r ffordd.

O 15 Gorffennaf 2022, mae Llywodraeth Cymru yn cynllunio ar gyfer Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 i newid y ffordd y mae pob landlord yng Nghymru yn rhentu eu heiddo. Bydd yn gwella'r ffordd rydym yn rhentu, yn rheoli ac yn byw mewn cartrefi rhent – sy'n newyddion da i bob tenant ledled Cymru.

Edrychwch ar fideo Llywodraeth Cymru, lle maen nhw'n egluro beth yn union fydd yn digwydd

Beth mae'r gyfraith newydd yn ei olygu i mi?

O dan y gyfraith newydd, bydd tenantiaid a thrwyddedigion yn dod yn 'ddeiliaid contract'. Bydd cytundebau tenantiaeth yn cael eu disodli gan 'gontractau meddiannaeth'.

Bydd y gyfraith newydd yn gwneud rhentu'n haws ac yn rhoi mwy o sicrwydd i'r holl denantiaid. Bydd hyn yn golygu:

- Derbyn contract ysgrifenedig sy'n nodi eich hawliau a'ch cyfrifoldebau
- Cynnydd yn y cyfnod rhybudd 'dim bai' o ddau i chwe mis
- Mwy o amddiffyniad i chi rhag cael eich troi allan
- Gwell hawliau olynu i drosglwyddo eich cartref
- Trefniadau mwy hyblyg ar gyfer cyd-ddeiliaid contract, gan ei gwneud yn haws ychwanegu neu dynnu eraill at gontract meddiannaeth

Rhagor o wybodaeth: I gael rhagor o wybodaeth am y ddeddfwriaeth newydd a'r effaith y bydd yn ei chael ar denantiaid a landlordiaid, ewch i wefan Llywodraeth Cymru

https://llyw.cymru/mae-cyfraith-tai-yn-newid-rhentu-cartrefi

Byddwn yn cysylltu â'r holl denantiaid dros y misoedd nesaf i esbonio mwy am y newidiadau hyn.